**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ein cyf:

11 Chwefror 2020

Annwyl Mr Ramsay

Gwasanaethau digidol ym maes iechyd a gofal yng Nghymru

Diolch ichi am eich llythyr, ac am ddiddordeb parhaus y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y datblygiadau digidol, data a thechnoleg sy'n digwydd ym maes iechyd a gofal yng Nghymru. Rydych yn gofyn ynglŷn â *Fy Iechyd Ar-lein,* ymddiswyddiad Andrew Griffiths, hynt y gwaith o recriwtio Prif Swyddog Digidol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, a rolau'r Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol a'r Prif Swyddog Safonau Technoleg.

Fy Iechyd Ar-lein

O ran *Fy Iechyd Ar-lein*, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi nodi bod pedwar trynewid posibl rhwng y ddwy system a ddefnyddir gan feddygon teulu yng Nghymru. Mae system *Vision* yn caniatáu trosglwyddo data cleifion yn awtomatig, felly os bydd claf yn cael ei drosglwyddo i feddyg teulu sy'n defnyddio *Vision* o'r naill system neu'r llall, bydd yn bosibl trosglwyddo ei wybodaeth heb fod angen creu cyfrif newydd. Nid yw'r opsiwn hwn ar gael gan system *EMIS*, felly os yw'r feddygfa y mae'r wybodaeth yn cael ei hanfon ati yn defnyddio *EMIS*, bydd angen creu cyfrif newydd hyd yn oed os yw'r anfonwr yn defnyddio *EMIS* hefyd.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrthi'n gweithio gyda Byrddau Iechyd a meddygfeydd yng Nghymru i sefydlu contract(au) newydd gyda darparwyr y system meddyg teulu, a byddant yn gweithio gyda'r darparwyr i gael gwared ar y gwahaniaethau yn y dyfodol. Yr ateb ar gyfer y tymor hir yw gwahanu system cofrestru cleifion y GIG yng Nghymru oddi wrth y system cofnodion iechyd a gofal electronig. Mae hyn yn rhywbeth sydd

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0251182
Andrew.Goodall@gov.wales

Gwefan • website: www.wales.gov.uk

wedi ei gynnwys yng nghwmpas Gwasanaeth Dilysu Porthol Cleifion arfaethedig a fydd yn caniatáu i gleifion ddewis y dechnoleg sy'n gweithio orau iddynt o ran edrych ar eu cofnodion ac ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal. Darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yw un o'r pum blaenoriaeth ddigidol a nodwyd yn natganiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 30 Medi 2019. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru i sicrhau bod cyllid digidol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cyflawni amcanion y pum thema strategol.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Yn fuan ar ôl gwrandawiad y Pwyllgor, cyhoeddodd Andrew Griffith y byddai'n rhoi'r gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwybodeg y GIG, a hynny ddiwedd mis Rhagfyr. Gan nad oedd wedi cyhoeddi hynny'n ffurfiol, nid oedd yn briodol iddo ei gyhoeddi ymlaen llaw mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Cafodd y prosesau arferol a phriodol eu defnyddio i roi gwybod i'r staff a'r cyhoedd fod Andrew wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w swydd.

Rwyf wedi cytuno mai Helen Thomas fydd Cyfarwyddwr dros dro Gwasanaeth Gwybodeg y GIG nes bod yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn cael ei greu, a bod Prif Swyddog Gweithredol newydd yn cael ei benodi drwy gystadleuaeth deg ac agored. Mae Helen wedi bod yn Gyfarwyddwr ar Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn y gorffennol, ac rwy'n gwbl hyderus o ran ei gallu i arwain y sefydliad drwy'r newidiadau a fydd yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf.

Prif Swyddog Digidol

Rydych wedi ceisio eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng rôl y Prif Swyddog Digidol, a rolau'r Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol a'r Prif Swyddog Safonau Technegol a fyddai'n adrodd i'r person hwnnw.

Bydd cylch gwaith y Prif Swyddog Digidol ar gyfer iechyd a gofal yn ymwneud â'r system gyfan o ran arwain y gwaith o gyflwyno newidiadau digidol yn gyflym ac ar raddfa fawr ar draws gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru. Bydd y Prif Swyddog Digidol hwn ar gyfer Iechyd a Gofal yn diffinio gwasanaethau a safonau cenedlaethol, fel rhan o'r broses o symud at saernïaeth ddigidol agored, ar draws yr holl systemau digidol. Bydd yn llywio'r gwaith trawsnewid o fewn gwasanaethau clinigol drwy sicrhau bod newidiadau digidol yn cael eu hystyried yn gynnar oherwydd eu nodweddion galluogi allweddol. Bydd y Prif Swyddog Digidol yn gweithredu mewn modd rhagweithiol drwy roi cyngor ar strategaeth ddigidol y dyfodol i Lywodraeth Cymru ac arweinwyr systemau, gan weithredu hefyd fel arweinydd proffesiynol ar gyfer y gweithlu digidol, data, a thechnoleg ac fel hyrwyddwr ym maes iechyd a gofal digidol yng Nghymru.

Mae rôl y Prif Swyddog Digidol yn rôl amser llawn, a bydd yn Gyfarwyddwr o fewn Awdurdod Iechyd Arbennig arfaethedig Gweithrediaeth y GIG. Bydd y Prif Swyddog Digidol yn cael ei gefnogi gan strwythur llywodraethu sydd ag elfennau cynghori, darparu sicrwydd, a chyflawni, yn ogystal â chymorth gan dimau cyflawni arbenigol. Bydd yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol eraill ar draws Cymru a'r DU, gan gynnwys Prif Swyddogion Digidol eraill o fewn gwasanaeth cyhoeddus Cymru yn ehangach.

Bydd Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol Cymru yn cynrychioli anghenion a barn yr holl grwpiau o staff clinigol mewn perthynas â data digidol a'r strategaeth dechnoleg, gan arwain y gwaith o ymgysylltu â chlinigwyr ledled Cymru a sicrhau bod y llais clinigol yn cael ei glywed. Bydd y Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol yn gyfrifol am roi cyngor ar lywodraethu gwybodaeth glinigol ac anghenion data clinigol i'r Prif Swyddog Digidol. Bydd yn cadeirio Fforwm Gwybodeg Glinigol Cymru, a fydd yn rhoi cyngor ac arweiniad ar strategaeth glinigol i'r Prif Swyddog Digidol, gan wneud argymhellion ynglŷn â blaenoriaethau clinigol a gweithredol. Bydd Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol Cymru yn gweithio gyda Phrif Swyddogion Gwybodaeth Glinigol byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd fel rhwydwaith sy'n gallu sicrhau bod y safonau gwybodaeth glinigol priodol ar waith ar draws pob maes, o wasanaethau gofal cymunedol i leoliadau gofal acíwt.

Bydd y Prif Swyddog Safonau Technoleg yn arwain y gwaith o weithredu argymhellion yr adolygiad o saernïaeth ddigidol, gan gynnwys rhoi cyngor arbenigol ar safonau technegol a saernïaeth y system i'r Prif Swyddog Digidol. Bydd y Prif Swyddog Safonau Technoleg yn datblygu systemau cymhellion a sicrwydd i gyflymu'r broses o fabwysiadu'r safonau a sicrhau cydymffurfedd â'r saernïaeth genedlaethol. Bydd y Prif Swyddog Safonau Technoleg yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Gwybodaeth Glinigol ac arweinwyr technegol ar draws GIG Cymru i sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn trosglwyddo i saernïaeth system genedlaethol, sy'n seiliedig ar blatfform agored, safonau agored, a data cydgysylltiedig diogel.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn darparu tystiolaeth glir i'r Pwyllgor nad yw'r rolau'n gorgyffwrdd, ond yn hytrach bod iddynt linellau penderfynu a gweithredu pendant a di-dor.

Mae swyddogion wedi datblygu manyleb lawn ar gyfer rôl y Prif Swyddog Digidol. Mae'r gwerthusiad o'r disgrifiad swydd hwnnw wedi dangos y bydd penodi Prif Swyddog Digidol yn dibynnu ar sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig arfaethedig Gweithrediaeth y GIG, a fydd yn lletya'r rôl. Fel y nododd y Pwyllgor, mae'n bwysig bod y rôl yn denu ymgeiswyr cryf ac felly mae angen cael y sicrwydd priodol ynglŷn â'r trefniadau lletya. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i opsiynau eraill ar gyfer lletya swydd y Prif Swyddog Digidol yn y cyfamser, er mwyn inni allu bwrw ymlaen â'r broses recriwtio cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir

Dr Andrew Goodall CBE